

## Dyfodol Ysgolion a Bröydd Gwynedd

Beth fydd tynged yr ysgolion a'r bröydd? Dyna'r cwestiwn mawr heddiw. A hyd yma, yn anffodus, mae ymateb Cyngor Gwynedd wedi bod yn gyfres o gamau gwag.

Y cam gwag cyntaf oedd derbyn yr honiad ffals fod ysgol gynradd yng Nghymru sydd â llai na 90 o blant yn 'anhyfyw', - yn "anghynaliadwy". Dyma awgrym un o fiwrocratiaid y Cynulliad i'r gwleidyddion yn y ddogfen sy'n sail i gynlluniau ad-drefnu ysgolion y cynghorau sir, a dim ond rhywun cwbl anwybodus yn hanes datblygiad cymdeithasol Cymru a allai ddweud peth mor ffôl. Wydda' fo ddim mai gwlad o bentrefi bychain ac ardaloedd gwasgaredig ydi Cymru gan fwyaf? Dylai Cyngor Gwynedd fod wedi herio'r Cynulliad ar y mater, ac wedi annog Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i wneud yr un modd. Mi ddylai'r cynghorau sir sy'n cynrychioli'r Gymru wledig fod wedi uno'n un llais i wrthwynebu hyn yn y cychwyn cyntaf. Wnaed mo hynny, a derbyniodd Cyngor Gwynedd yr honiad ffals yma yn gysail i'w gynllun ad-drefnu.

Yr ail gamgymeriad oedd peidio â llunio proffiliau ieithyddol, diwylliannol a chymdeithasol o'r ysgolion a'r ardaloedd cyn dechrau llunio argymhellion. Byddai tystiolaeth am sefyllfa'r iaith yn lleol wedi bod yn hanfodol i'r cyngor wrth baratoi cynllun drafft. Wnaethpwyd mo hynny. Dylai'r cyngor fod wedi cwblhau'r proffiliau hyn a'u cyhoeddi cyn dechrau ymgynghori gyda'r ysgolion unigol oherwydd byddai'r dystiolaeth ynddynt yn hanfodol i'r ysgolion lunio ymateb.

Y trydydd camgymeriad oedd peidio â chynnal asesiadau ardrawiad ieithyddol a chymdeithasol o'r ysgolion a'r ardaloedd wrth lunio'r cynllun drafft. Dylid bod wedi gwneud hynny'n fewnol fel rhan o'r broses. Wnaethpwyd mo hynny. Mae'r cyngor yn mynd ynglŷn â'r mater yn awr, a hynny ar ôl llunio argymhellion y cynllun drafft. Dylid cwblhau a chyhoeddi'r asesiadau hyn cyn dechrau ymgynghori gydag ysgolion unigol. Mae'n gwbl naturiol fod pobl eisiau gwybod beth fyddai'n debygol o ddigwydd

yn ieithyddol, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol i'w hardal hwy pe bai eu hysgol yn cau neu'n cael ei hisraddio, neu beth fyddai'r effaith ieithyddol, ddiwylliannol a chymdeithasol ar blant a fyddai'n ymuno â phlant o ysgolion eraill boed yn eu hysgol eu hunain neu mewn ysgol mewn cymdogaeth arall. Mae'r deg iddynt gael y dystiolaeth cyn dechrau'r cyfnod ymgynghori fel eu bod yn cael cyfle i gyflwyno'u hachos. Mae'r mater hwn o'r pwys mwyaf.

Y pedwerydd camgymeriad oedd i'r cyngor ddewis astudiaethau achos nad oedd yn gymharol mewn agwedd greiddiol. Mae ysgol mewn pentref bychan ac ardal wasgaredig yng Ngwynedd yn chwarae rhan allweddol mewn cymdeithas sydd dan warchae, yn y gorchwyl o ddatblygu iaith a diwylliant y plant o aelwydydd Cymraeg a chymathu'r rhai o aelwydydd di-Gymraeg, a chadw undod diwylliannol a chymdogaethol dan bwysau cynyddol, a hynny o dan amgylchiadau arbennig. Mae hon yn ffactor hanfodol. Edrychodd y cyngor ar enghreifftiau o ffederaleiddio ac o glystyru mewn 8 ardal y tu allan i Gymru. Ond, wrth reswm, doedd y ffactor ddiwylliannol arbennig y cyfeirir ati uchod ddim yn bresennol yn sefyllfa'r un ohonynt. Cafwyd un astudiaeth achos o ardal yng Nghymru - yn nalgylch Llanbedr Pont Steffan yng Ngheredigion - ond anwybyddwyd y ffactor iaith a chymdogaeth yn llwyr yn yr astudiaeth honno.

Y pumed camgymeriad ar ran y cyngor oedd peidio â chynnwys awgrymiadau gan lywodraethwyr lleol a rhieni yn y cynllun drafft. Yn hytrach, gosodwyd dewisiadau'r cyngor ei hun yn seiliedig ar ei astudiaethau annigonol ei hun. Man cychwyn y cyngor yn y trafodaethau agoriadol efo'r llywodraethwyr oedd fod y sefyllfa bresennol yn 'anghynaliadwy'. Daeth y ddau air 'cynaliadwy' ac 'anghynaliadwy' yn amlycach bob dydd yng ngeirfa gweinyddwyr, gwleidyddion a chynghorwyr fel ei gilydd. Mae'r peth a'r peth yn 'gynaliadwy' neu'n 'anghynaliadwy' Ac mae'r geiriau hyn byth a hefyd yn cael eu defnyddio i ddiben arbennig. Os bydd llywodraeth ganolog neu lywodraeth leol eisiau newid y drefn o fewn ryw sector

neu'i gilydd, a hynny am resymau cyllidol, trefniadol neu ideolegol, bydd yr awdurdodau'n datgan bod y sefyllfa bresennol - y 'status quo' - yn 'anghynaliadwy'. Ystyr hynny ydi nad ydi'r awdurdodau ddim yn ewyllysio cynnal y drefn bresennol, a byddant yn gosod nifer o ddewisiadau o'u dewis nhw'u hunain gerbron y sector. Bydd dewis un ohonyn nhw yn rhyddhau arian o ryw ffynonellau neilltuol, ond fydd gwella, cryfhau a datblygu'r drefn bresennol dim yn un o'r dewisiadau. Na, fydd yna 'run ceiniog i chi ar gyfer hynny. Ond beth am wasanaethau cyhoeddus, fel addysg? Onid yw'n rhan o gyfrifoldeb a dyletswydd llywodraeth ganolog a llywodraeth leol i gynnal gwasanaethau lleol, i'w gwneud yn gynaliadwy, i ewyllysio eu cynnal o fewn y gymdeithas leol? Oni ddaeth gwerthoedd cyfalafol a chorfforaethol yn gynyddol i mewn i lywodraeth leol, gydag egwyddorion materol yn tueddu i dra-arglwyddiaethu dros y gwerthoedd cymdeithasol a diwylliannol.

Ni ddylid ar unrhyw gyfrif benderfynu ar gynllun a fyddai mewn unrhyw fodd yn gwanychu safle'r Gymraeg fel iaith y gymdeithas. Byddai'n amhosib dadwneud unrhyw gam gwag mewn mater mor fawr a phwysig â dyfodol y diwylliant a'r bywyd Cymraeg yng Ngwynedd. Os bydd yr asesiadau ardrawiad iaith a chymunedol yn dangos effeithiau negyddol sicr neu debygol ar yr iaith, dylid newid yr argymhellion yn hytrach na chymryd camau i geisio lliniaru'r drwg-effeithiau.

Y peth doethaf fydd i'r cyngor ohirio'r ymgynghori presennol hyd nes y bydd y canlynol wedi cael eu cwblhau a'u cyhoeddi: proffiliau o'r ysgolion a'r ardaloedd; asesiadau ardrawiad iaith a chymunedol; ac astudiaethau cymharol ehangach. Byddai'r dystiolaeth hon yn rhoi cyfle i'r cyngor ail-ystyried eu hargymhellion ac yn rhoi cyfle i ysgolion unigol gyflwyno eu hargymhellion eu hunain i sylw'r cyngor.

Ieuan Wyn

